Guru Nanak

Cysyniadau: **Helpu eraill, cyfeillgarwch, gwerthfawrogiad, rhannu.**

Amcan: **Dysgu am gymeriadau o grefydd a thraddodiad arall.**

Cyfarpar: **Llun dyn a dynes o grefydd y Sîc.**

Cyflwyniad:

● Dangos llun i'r plant. Bydd y plant yn sylwi bod y ddau yn y llun yn gwisgo'n wahanol. Bydd y dyn yn gwisgo twrban ar ei ben i guddio'i wallt a'i wraig yn gorchuddio ei phen â sgarff. Pan fydd aelodau o grefydd y Sîc yn mynd i addoli mi fyddan nhw'n tynnu eu hesgidiau.

● Sylfaenydd y grefydd Sicaidd oedd dyn o'r enw Nanak. Roedd yn byw yn India flynyddoedd maith yn ôl. Ar ôl iddo dyfu i fyny aeth i weithio i deulu cyfoethog iawn. Nanak oedd yn gyfrifol am arian y teulu cyfoethog. Y fo oedd yn cadw cyfrif o faint oedd y teulu yn ennill a faint oedden nhw'n wario. Nanak oedd cyfrifydd y teulu. Ond doedd y swydd hon ddim yn plesio Nanak. Roedd o'n teimlo bod Duw yn ei alw i helpu pobl eraill. Pobl dlawd, pobl oedd heb ddim byd o gwbl.

Stori:

Dyma stori heddiw am Guru Nanak neu'r athro (dyna ystyr Guru) Nanak.

'Rydw i am fynd ag anrheg i Guru Nanak,' meddai Sadŵ. Bachgen wyth mlwydd oed oedd Sadŵ yn byw efo'i frodyr a'i chwiorydd a'i rieni mewn ardal dlawd ar gwr y ddinas.

'Pa fath o anrheg?' gofynnodd ei dad iddo.

'Ddoe,' meddai Sadŵ, 'mi ddois i ar draws pluen aderyn ar lan yr afon. Mae hi'n bluen liwgar. Rwy'n siŵr y bydd Guru Nanak yn falch

ohoni.' Ac i ffwrdd â fo efo'r bluen liwgar.

Cafodd groeso mawr gan Nanak. 'Diolch yn fawr iawn i ti am y bluen, ond dydw i ddim am ei chadw i mi fy hun. Mi ydw i am ei rhoi hi'n anrheg i ferch fach sy'n byw lawr y stryd. Mae hi'n sâl a dwi'n siŵr y bydd y bluen yn codi'i chalon.'

Un felly oedd Guru Nanak. Doedd o byth yn meddwl amdano'i hun. Meddwl am eraill roedd o bob amser.

Un diwrnod penderfynodd gwëydd blethu carped hardd i Nanak. Roedd hwn yn mynd i fod y carped prydferthaf roedd y gwëydd wedi'i greu erioed. Bu wrthi am fisoedd, ddydd a nos, yn plethu'r carped. Byddai pobl yn dod o bell i weld y gwëydd wrth ei waith.

'Pwy sy'n mynd i gael y carped hardd hwn?' gofynnodd un ymwelydd iddo.

'O! mae'r carped hwn yn cael ei blethu i rywun arbennig iawn.'

'Pwy felly?' gofynnodd yr ymwelydd.

'Guru Nanak,' meddai'r gwëydd. 'Mi fydda i wedi gorffen y gwaith erbyn diwedd yr wythnos. Yna dydd Llun nesaf byddaf yn mynd â'r carped a'i roi yn anrheg i Guru Nanak.' A dyna ddigwyddodd.

Ar ôl i'r gwëydd rolio'r carped meddai wrth Guru Nanak, 'Os gwelwch yn dda, wnewch chi eistedd ar y carped?'

Ond yn hytrach nag eistedd ar y carped meddai Guru Nanak, 'Mae'n well gen i garped natur, sef y glaswellt, mae hwnnw'n ddigon da i mi. Ond rwyf am i ti wneud defnydd o'r carped. Edrych draw acw ar yr ast a'i chŵn bach. Mae hi'n llwgu ac mae hi'n oer. Rho'r carped drostyn nhw a rho fwyd a diod iddyn nhw. Mi fydd hynny'n fy ngwneud i'n hapus iawn. Dydw i ddim yn hoffi gweld dyn nac anifail yn dioddef.' Gafaelodd y gwëydd yn y carped a'i roi dros yr ast a'i chŵn bach a rhoddodd fwyd a diod iddyn nhw yn ôl gorchymyn Guru Nanak.

Teimlai'r gwëydd ei fod wedi gwneud rhywbeth gwerth chweil.

Trafodaeth bellach:

● Sut ddyn oedd Guru Nanak? Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio?

- Tybed oedd Guru Nanak yn ddyn anniolchgar yn gwrthod yr anrheg?

- Sut oedd y gwëydd yn teimlo, tybed, wedi mynd i'r holl drafferth?

Dyfyniad o'r Beibl:
Rwyt ti wedi gosod dyn yn feistr ar y defaid ac ychen o bob math, a hyd yn oed yr anifeiliaid gwyllt; yr adar sy'n hedfan, y pysgod sydd yn y môr. Salm 8 (aralleiriad)

Emyn: Os cei gyfle: Canu Clod 323

Munud i feddwl:
Rydw i'n frawd i bawb sy'n caru Duw ac y mae pawb sy'n caru Duw yn frodyr i'w gilydd. Guru Nanak

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, mi ydw i eisiau helpu pobl ac anifeiliaid a phopeth byw. Amen.